# BWRDD PENSIWN DYDD LLUN, 16 HYDREF 2023

**Yn bresennol**:

Eifion Jones (Cadeirydd), Tony Deakin ac Osian Richards (Cynrychiolwyr Aelodau)

Sioned Parry a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**Swyddogion**: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**ERAILL A WAHODDWYD**

Cyng. Stephen Churchman (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau) - arsylwi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Beca Roberts (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 20 Gorffennaf 2023 fel rhai cywir.

**5. COFNODION Y PWYLLGOR PENSIYNAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 18 Medi 2023

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023**

Cyflwynwyd adroddiad (drafft) gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad, yn unol â chanllawiau CIPFA yn cynnwys manylder am aelodaeth, gweinyddiaeth, buddsoddiadau, perfformiad ariannol, adroddiad yr actiwari, cyfrifon, a'r 5 datganiad safonol sydd gan y Gronfa. Bydd yr adroddiad yn cael ei adolygu fel rhan o archwiliad y cyfrifon gan Archwilio Cymru ac yn cael ei

gyflwyno i'r Cyfarfod Blynyddol ddiwedd mis Tachwedd.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r gwaith.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol.

- Bod teitlau coll yn y tabl dangosyddion staffio
- Ai effaith covid sydd yn gyfrifol am leihad yn y rhagdybiaethau marwolaethau?
- Cwestiynu bod Grŵp Swyddogion Pensiynau Amwythig wedi eu lleoli yn ardal y West Pennines ac nid y West Midlands
- Angen ystyried agor trafodaethau gyda mudiadau / cwmnïau i osgoi materion cytundeb
- Bod y sesiynau hyfforddiant wedi bod yn fuddiol
- Sut mae'r Bwrdd yn adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r côd rheoleiddwyr? Awgrym cynnwys hyn fel eitem i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â mesurau perfformiad ac os oedd mesurau cyffredinol ar gyfer pob cronfa, nodwyd nad oedd cysondeb na chymhariaethau ar hyn o bryd, ond bod gwaith yn cael ei wneud gyda chronfeydd Cymru i drafod y mater, gosod canllawiau ac anelu at osod mesuriadau ar gyfer pob cronfa erbyn 2024/25. Mewn ymateb, awgrymwyd y byddai'n fuddiol, wedi i'r mesuriadau gael eu mabwysiadu, bod mesurau perfformiad yn eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd a'r Pwyllgor Pensiynau i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw bod un categori heb gyrraedd y meincnod (cyfeiriadau aelodau gyda sgôr o 97.14%), a bod rhagdybiaeth y byddai banciau gyda manylion cyfeiriad yr aelod, nodwyd bod y wybodaeth yn cyfeirio yn bennaf at aelodau sydd wedi gohirio / rhewi eu pensiynau neu wedi gadael. Ategwyd, er mwyn gwella sgôr cyfeiriadau aelodau bod yr adran bensiynau yn gweithio gyda chwmni o'r enw ATMOS i olrhain cyfeiriadau a gofnodwyd fel rhai sydd wedi diflannu (oddeutu 2000).

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r aelodau'n ffurfiol o waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Adroddwyd bod y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn cynrychioli'r Gronfa yn holl gyfarfodydd y pwl, a bod y cydweithio yn parhau i fynd o nerth i nerth ar faterion megis ymateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth, pleidleisio ac ymgysylltu ac yn gyffredinol rhannu ymarfer da ar draws y cronfeydd. Nodwyd bod 83% o Gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda PPC erbyn hyn - Gwynedd ymysg yr uchaf yn y gronfa.

Tynnwyd sylw at y cronfeydd ecwiti gan gyfeirio at berfformiad Cronfa Twf Byd Eang sydd â thri phrif reolwr sy'n gweithredu arddull gwahanol iawn i'w gilydd - Baillie Gifford, Pzena a Veritas. Atgoffwyd yr Aelodau bod y gronfa yma, yn y blynyddoedd cynnar, yn perfformio yn dda iawn, a hynny yn bennaf oherwydd perfformiad Baillie Gifford. Bellach, amlygwyd bod Baillie Gifford yn tan berfformio a hynny yn bennaf oherwydd natur eu buddsoddiadau a'u perfformiad yn un 'cylchol' (weithiau yn dda, a thro arall ddim cystal). Ategwyd bod y perfformiad yn cael ei fonitro yn fanwl a bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Bartneriaeth ac ymgynghorwyr y Bartneriaeth, Hymans Robertson.

Yng nghyd-destun Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang adroddwyd bod y gronfa yn cynnwys wyth rheolwr sylfaenol ar er na fydd pob rheolwr yn perfformio yn dda ar yr un pryd, bod y dull amrywiol yn golygu sefyllfa sefydlog a'r gronfa yn perfformio yn uwch na'r meincnod dros y tymor hir, ond bod y 3 mis diwethaf wedi bod yn heriol.

Yng nghyd-destun Cronfeydd Incwm Sefydlog, cyfeiriwyd ar y Gronfa Gredyd Aml-ased sydd â phum rheolwr buddsoddi gwahanol. Adroddwyd bod y gronfa wedi tan - berfformio a hynny oherwydd ansefydlogrwydd yn y farchnad gyda rhyfel Wcráin, cyfyngiadau covid Tsiena, ac effaith codiadau llog cyflym. Ategwyd, er pryderon bod y gronfa wedi bod drwy gyfnod heriol, ymrwymiad buddsoddi tymor hir sydd yma ac felly parhau gyda'r buddsoddiadau yn y gobaith o brofi cynnydd ar ddiwedd yr ansefydlogrwydd yw'r nod.

Wrth drafod Cronfa Enillion Bond Absoliwt, sydd â phedwar rheolwr buddsoddi, amlygwyd bod yr amodau yn y maes yma hefyd wedi bod yn heriol gydag effaith chwyddiant a chyfraddau llog, ond eto, yr ymrwymiad yn un tymor hir ac felly parodrwydd i barhau gyda'r buddsoddiadau yn y gobaith y bydd yr amodau yn gwella.

Adroddwyd bod y Gronfa Marchnadoedd Datblygol, a lansiwyd Hydref 2021, gyda chwe rheolwr buddsoddi sylfaenol gan gynnwys Bin Yuan arbenigwr Tsiena. Nodwyd bod yr amodau eto yn heriol iawn ac mai Bin Yuan oedd wedi achosi'r elfen o dan berfformiad a hynny oherwydd polisi dim covid Tsiena. Ategwyd mai'r gobaith yw gweld gwellhad yn amodau'r farchnad a gwell dychweliadau.

Cyfeiriwyd at ddatblygiadau diweddar y PPC gan dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes marchnadoedd preifat gyda chwmnïau wedi eu hapwyntio i redeg y mandadau dyled preifat, isadeiledd ac ecwiti preifat. Ategwyd bod buddsoddiadau dyled preifat ac ecwiti preifat eisoes wedi dechrau a bod swyddogion yn y broses o arwyddo'r dogfennau cronfa ecwiti preifat. Y bwriad yw bod Cronfa Gwynedd yn gadael i'r buddsoddiadau isadeiledd ac ecwiti preifat aeddfedu yn naturiol ac yna buddsoddi yn raddol gyda'r pwl. Nodwyd bod trafodaethau cychwynnol hefyd wedi dechrau mewn perthynas â'r dosbarth asedau eiddo gyda'r broses caffael yn digwydd o fewn y flwyddyn nesaf.

Yng nghyd-destun Cronfa Ecwiti Cynaliadwy sef cronfa a grëwyd gan Russell Investments ar ôl asesu anghenion buddsoddi cyfrifol y pwl, amlygwyd bod £270 miliwn, sef 10% o'r Gronfa wedi ei fuddsoddi yn y gronfa yma, ac y bydd y perfformiad yn cael ei fonitro yn rheolaidd.

Cyfeiriwyd at Ddychweliad Blynyddol y pwl, ac at wefan PPC lle mae nifer o ddogfennau defnyddiol. Amlygwyd hefyd y ffioedd sylweddol sydd yn cael eu talu i redeg y pwl ac eglurwyd bod y rhain yn cael ei rhannu'n hafal gyda chronfeydd eraill y bartneriaeth (oni bai bod gwaith penodol wedi cael ei wneud i un gronfa) - y ffioedd yn cynnwys costau pwysig megis ymgynghorwyr, cyfreithwyr, gwaith cyfieithu, gwaith darparwr pleidleisio ac ymgysylltu.

O ran diweddariad am y gweithredwr, adroddwyd bod pryniant o Link wedi ei wneud i Waystone ar y 9fed o Hydref ac na fyddai hyn yn cael effaith ar sut mae'r cronfeydd yn cael eu rhedeg. Ategwyd bod y cytundeb presennol yn dod i ben yn 2024 ac un o'r tasgau cyntaf fydd cynnal proses caffael gweithredwr newydd. Bydd Gwahoddiad i Dendro yn cael ei gyhoeddi mis Hydref 2023.

Diolchwyd am yr adroddiad

Ategodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau ei fod yn hapus gyda pherfformiad y Gronfa ac o berfformiad PPC o gymharu â chronfeydd eraill yn y DU. Nododd y byddai buddsoddi mewn isadeiledd yn debygol o ddigwydd pan fydd y cyfle gorau yn amlygu ei hun, ond yn y cyfamser, nid oedd problemau i'w gweld ar y gorwel a bod y perfformiad yn dda. Nododd fod cynnydd yng ngwaith y Bartneriaeth yn dda a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith a'r cydweithrediad da.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.40 y.h.

**CADEIRYDD**